



Crynodeb Cynllun Datblygu Ysgol 2023 – 2024

‘Gyda’n gilydd gallwn lwyddo’.

Arolwg ESTYN diwethaf:

Medi 2022

Gwerthusiad yr Ysgol

Blaenoriaethau a chynnydd 2022-23 (y llynedd) a’r cymorth a gafwyd:

Mynd i’r afael â’r mater iechyd a diogelwch a godwyd yn ystod yr arolygiad – (Penrhyn-coch yn unig) Gosodwyd gatiâu newydd ym mlaen a chefn yr ysgol, wedi’u cynllunio a’u hariannu gan yr awdurdod lleol, i sicrhau diogelwch disgyblion. Gwellodd prydlondeb oherwydd gosod y gatiâu.

Sicrhau bod disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i gefnogi pob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu – Cynnydd cryf mewn perthynas â chymhwysedd digidol disgyblion oherwydd cefnogaeth gan athrawon ymgynghorol yn y maes. Mae agweddau at ddysgu wedi gwella, yn enwedig ymhlith disgyblion difreintiedig, oherwydd y arweinyddiaeth yn ystod gweithdai RADY. Mae gan ddisgyblion ymwybyddiaeth gwell o Hawliau Plant. Mae agweddau o hyn yn parhau, ac felly bydd hyn yn parhau yn flaenoriaeth i’r flwyddyn nesaf.

Datblygu sgiliau dysgu annibynnol disgyblion, gan gynnwys eu gallu i wneud dewisiadau am eu dysgu, gwella eu gwaith eu hunain a dylanwadu ar waith yr ysgol – llawer o ddisgyblion yn fwy tueddol o ddyfalbarhau yn hytrach na gofyn i athro am gymorth, nifer cynyddol o ddisgyblion yn ysgrifennu’n annibynnol heb gymorth canllawiau ysgrifennu, mae disgyblion yn cael mwy o gyfleoedd i wneud dewisiadau am gynnwys neu ffurf eu hysgrifennu. Wedi’i gefnogi gan ymchwil weithredol..

Blaenoriaethau 2023-24, cynllun gweithredu a chymorth sydd ei angen.

Datblygu dylanwad llais y dysgwyr ar drefniadau’r ysgol.

Mae’r cynllun gweithredu yn cynnwys hyfforddiant staff ac ymchwil gweithredol wedi’i fesur gan grwpiau ffocws, a holiaduron. Byddwn yn cael ein cefnogi gan Brifysgol Bryste ac athrawes ymgynghorol dros les Ceredigion.

Gobeithiwn y bydd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gallu rhoi enghreifftiau o sut maent wedi dylanwadu ar eu dysgu eu hunain, a gwaith yr ysgol.

Sicrhau bod disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i gefnogi pob disgybl i gyflawni hyd eithaf ei allu.

Mae’r cynllun gweithredu yn cynnwys ymchwil gweithredol, gan gynnwys prosiect gyda Phrifysgol Aberystwyth yn seiliedig ar strategaethau hyfforddi a mentora staff. Mesurwn yn defnyddio craffu ar waith disgyblion a theithiau dysgu fel sail pennaf i’r gwaith.

Gobeithiwn wella cyrhaeddiad disgyblion, dyfnder gwybodaeth a soffistigeiddrwydd sgiliau ar draws y cwricwlwm.

CRYFDERAU:

Ethos cynhwysol, gofalgwr ac amgylchedd cartrefol.

Arfer dda wrth ddatblygu dysgwyr annibynnol.

Darpariaeth gref ar gyfer pwysleisio a dathlu Cymru a’i diwylliant.

Cysylltiadau cymunedol cryf sydd ag ystod eang o fanteision i ddisgyblion.

Tîm o staff ymroddedgar a chydwybodol.

Gweledigaeth strategol glir yn gyrru prosesau gwella ysgol yn seiliedig ar fuddion i’r dysgwyr.

MEYSYDD I’W DATBLYGU:

Ni roddir digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddylanwadu ar drefniadau’r ysgol.

Nid yw’r ddarpariaeth bob amser yn herio disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae lleiafrif o ddisgyblion yn troi at Saesneg, er enghraifft wrth siarad â’u cyfoedion mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, yn enwedig ar frig yr ysgol.



SCHOOL DEVELOPMENT PLAN SUMMARY 2023 – 2024

Last ESTYN inspection date:
September 2022

‘Together we can succeed’.

School Evaluation

2022-23 priorities and progress (last year) and the support received:

Address the health and safety issue that was raised during the inspection – (Penrhyn-coch only) New gates were erected at the front and rear of the school, planned, and funded by the local authority, to ensure safety of pupils. Punctuality improved because of installation of the gates.

Ensure that teachers’ expectations are high enough to support all pupils to achieve to the best of their ability – Strong progress in relation to pupil’s digital competency because of support from advisory teachers in the field. Attitudes to learning have improved, particularly amongst disadvantaged pupils, because of incentives established during RADY workshops. Increased awareness of Children’s Rights. Aspects of this remain, and so this will continue into next year.

Develop pupils’ independent learning skills, including their ability to make choices about their learning, improve their own work and influence the work of the school – many pupils more inclined to persevere as opposed to ask a teacher for help, increased number of pupils writing independently without the help of writing guides, pupils have increased opportunities to make choices about the content or form of their writing. Supported by action

2023-24 priorities, action plan and support required.

Developing the influence of learner voice on the school’s arrangements.

Action plan includes staff training and action research measured by focus groups, and questionnaires. We will be supported by Bristol University and Ceredigion’s advisory teacher for well-being.

We hope that most pupils will be able to give examples of how they have influenced their own learning, and the work of the school.

Ensure that teachers’ expectations are high enough to support all pupils to achieve to the best of their ability.

Action plan includes action research, including project with Aberystwyth University based upon coaching and mentoring strategies of staff.

We hope to improve pupils’ attainment, depth of knowledge and sophistication of skills across the curriculum.

STRENGTHS:

Inclusive, caring ethos and homely environment.

Good practice in developing independent learners.

Strong provision for emphasising and celebrating Wales and its culture.

Strong community links which have a wide range of benefits for pupils.

Dedicated and conscientious team of staff.

Clear strategic vision driving school improvement processes based upon benefits to the learner.

AREAS TO DEVELOP:

Pupils are not given enough opportunities to influence the school’s arrangements.

Provision does not always challenge pupils to achieve to the best of their ability.

A minority of pupils turn to English, for example when talking to their peers in formal and informal situations, particularly at the top of the school